

## Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

### Adroddiad Blynyddol 2013-2014

#### Cefndir

1. Corff statudol yw'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, a sefydlwyd gan *Ddeddf Osteopathiaid 1993*, gyda chyfrifoldeb dros reoleiddio'r maes osteopathi yn y DU. Ein nod yw diogelu'r cyhoedd drwy sicrhau addysg, ymarfer ac ymddygiad o'r radd flaenaf ymhlith osteopathiaid. Rydym yn cynnal [Cofrestr Statudol yr Osteopathiaid](#) ac, yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i osteopathiaid gofrestru gyda ni cyn cael ymarfer yn y DU.
2. Cafodd ein Cynllun Iaith Gymraeg ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 12 Gorffennaf 2011 a'i gyflwyno gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ar 1 Awst 2011. Dyma ein trydydd adroddiad monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

#### Cyhoedduswyd i'r cynllun

3. Mae'r cynllun ar gael ar dudalennau pwrpasol [Cymraeg](#) a [Saesneg](#) ein gwefan, ac mae'n rhan o ddewisiadau 'Quick links' ar bob tudalen. Mae hefyd yn y 'Guide to information', sy'n rhan o'n [Cynllun Cyhoeddiadau](#). Hefyd, pan fyddwn yn cyhoeddi neu'n trefnu bod cyhoeddiad ar gyfer y cyhoedd ar gael yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod osteopathiaid sy'n ymarfer yng Nghymru yn ymwybodol o'r cyhoeddiad a'r Cynllun, fel y gallant roi gwybod i'w cleifion.

#### Codi ymwybyddiaeth

*Dyletswyddau o dan y Ddeddf*

4. Wrth baratoi'r Adroddiad Monitro Blynyddol, gofynnwyd i'r staff ein hysbysu am unrhyw gamau a gymerwyd ganddynt dan y Cynllun yn ystod y flwyddyn Gorffennaf 2013-Gorffennaf 2014.

#### Gwasanaethau a ddarperir o dan y Cynllun Iaith Gymraeg

*Ein gwefan*

5. Mae ein gwefan yn cyflwyno gwybodaeth allweddol i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg, am swyddogaeth y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a'r gwasanaethau a ddarperir dan y Cynllun Iaith yn [www.osteopathy.org.uk/about/our-work/Cymraeg/](http://www.osteopathy.org.uk/about/our-work/Cymraeg/). Edrychwyd ar y dudalen Gymraeg 154 rhwng 25 Mehefin 2013 a 24 Mehefin 2014 ac edrychwyd ar y dudalen Saesneg sy'n son am y Cynllun 45 o weithiau.
6. Fel rhan o'n bwriad i greu gwefan newydd yn ystod haf 2014, rydym yn adolygu'r cynnwys Cymraeg, sydd ar un dudalen hir ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o greu adran Gymraeg newydd yn ei lle. Byddai gwybodaeth am feysydd gwahanol o'n gwaith yn ymddangos ar dudalennau ar wahân, gan wneud y wefan yn fwy hwylus a hygyrch i'n darllenwyr.

## *Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg*

7. Ni chawsom unrhyw lythyrau na galwadau ffôn Cymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru gennym, ac ni chawsom wrandawriad addas i ymarfer lle gofynnodd y tyst am wasanaethau cyfieithu.

## *Cyhoeddiadau*

8. Ym mis Awst 2013, cyhoeddodd rheoleiddwyr gofal iechyd y DU rifyn digidol newydd o'u taflen ar y cyd i gleifion o'r enw '*Pwy sy'n rheoleiddio gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol?*' Mae'r daflen ddiwygiedig yn adlewyrchu newidiadau yn y ffordd y rheoleiddir gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU. Mae fersiwn Gymraeg o'r daflen ddiwygiedig ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan ar dudalen 'UK Regulators' a thudalen 'Cymraeg' ein gwefan. Anfonwyd e-bost at osteopathiaid sy'n ymarfer yng Nghymru ar 4 Medi 2013, i'w hysbysu am y daflen newydd, gyda dolen i'r daflen. Gofynnwyd i bobl anfon eu sylwadau am y daflen, ond ni ddaeth unrhyw sylwadau i law.
9. Ym mis Hydref 2012, cyhoeddodd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ddwy daflen wybodaeth newydd i'r cyhoedd: *Beth i'w ddisgwyl gan eich osteopath a Safonau Gofal Osteopathig*. Mae'r taflenni Cymraeg ar gael ar dudalen 'Cymraeg' ein gwefan, ac mae gwybodaeth ar dudalen 'Leaflets' yn adran 'Resources' ein gwefan yn nodi bod fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael. Rhoddwyd gwybod i osteopathiaid sy'n ymarfer yng Nghymru bod cyfieithiadau Cymraeg o'r taflenni gwybodaeth newydd i'r cyhoedd ar gael. Rhwng 25 Mehefin 2013 a 24 Mehefin 2014, cafodd y daflen *Beth i'w ddisgwyl gan eich osteopath* ei lawrlwytho 12 gwaith a chafodd *Safonau Gofal Osteopathig* ei lawrlwytho 10 gwaith.
10. Cafodd cyflwyniadau blynyddol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol i fyfyrwyr blwyddyn olaf, sy'n tynnu sylw at yr adnoddau gwybodaeth i gleifion sydd ar gael i'w defnyddio gan gofrestryddion wrth eu gwaith, eu haddasu eleni er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r adnoddau hynny sydd wedi'u haddasu i wasanaethau cleifion Cymraeg eu hiaith yn well.
11. Ym mis Chwefror 2014, cyflwynodd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol adnoddau newydd er mwyn helpu osteopathiaid i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'u statws fel gweithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys posteri gwybodaeth i'r cyhoedd a Marciau Cofrestru. Mae fersiynau Cymraeg ar gael i osteopathiaid sy'n gweithio yng Nghymru. Anfonwyd neges e-bost at osteopathiaid sy'n ymarfer yng Nghymru, yn hyrwyddo'r adnoddau Cymraeg a'r dolenni i adnoddau ar yr 'O Zone', sef gwefan y Cyngor i Osteopathiaid. Rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2014, roedd 6 osteopath wedi gofyn am farc 'Rwyf wedi Cofrestru' yn y Gymraeg (ar gyfer ymarferwyr unigol) a 5 wedi gofyn am farc 'Rydym wedi Cofrestru' ar gyfer practisau grŵp.

## **Trydydd partïon**

12. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ni chawsom unrhyw gytundeb newydd â thrydydd partïon er mwyn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, neu sy'n effeithio ar y cyhoedd yng Nghymru.

## **Monitro ac adrodd am y cynllun**

13. Mae ein Huwch Dîm Rheoli yn monitro'r broses o weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg ac yn darparu adroddiad blynyddol ar gynnydd i'r Cyngor.